Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 23 Ionawr 2019

Rhif Union: 01824706141

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 29 IONAWR 2019** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 - ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG AC AELODAU'R CYHOEDD FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN YMA O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD** (Tudalennau 5 - 6)

Nodi ymrwymiadau dinesig a ymgymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

**5** **COFNODION** (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2018 (copi ynghlwm).

**6** **CYMERADWYO CYLLIDEB Y CYNGOR 2019/20 (CYNIGION TERFYNOL)** (Tudalennau 19 - 38)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cyllid (copi ynghlwm) i ddarparu trosolwg o broses y gyllideb ac effaith y Setliad Llywodraeth Leol a chymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2019/20, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

**7** **CYNLLUN LLEIHAU TRETH Y CYNGOR 2019/20** (Tudalennau 39 - 70)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Cyflenwi Gwasanaeth a'r Prif Gyfrifydd (copi ynghlwm) i fabwysiadu'r Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor Cymru gyfan a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a'r Rheoliadau Diwygiadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2018, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2019/20.

**8** **PAPUR GWYN LYWODRAETH CYMRU - DIWYGIO AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU** (Tudalennau 71 - 102)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (copi ynghlwm) sydd yn ceisio sylwadau'r Aelodau ar y Papur Gwyn – Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

**9** **RHYBUDD O GYNNIG**

Rhybudd o Gynnig a gyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

"Mae'r Cyngor hwn yn nodi â phryder y cofnod ar Gofrestr Risg Gorfforaethol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r canlynol:

- Mae Fforwm Gofal Cymru yn pryderu fod y maes gofal 'ar drothwy argyfwng', ac yn rhybuddio y gallai effeithiau hirdymor ymadael a'r Undeb Ewropeaidd greu prinder staff aruthrol;
- Cyfanswm gwerth yr allforion o Sir Ddinbych a Chonwy yn 2016 oedd £188 miliwn, ac aeth £102 miliwn o hynny - 55% - i'r Undeb Ewropeaidd.
  Cyfanswm gwerth yr allforion o Sir y Fflint a Wrecsam oedd £5,051, ac aeth £4,382 o hynny – 87% – i'r Undeb Ewropeaidd;

- Mae Cymru'n fuddiolwr net yn yr Undeb Ewropeaidd, gan dderbyn oddeutu £245 miliwn yn fwy gan yr Undeb Ewropeaidd na'r hyn a dalwn i mewn;
- Yn gynharach y mis hwn dywedodd Ysgrifennydd Llywodraeth y Deyrnas Undedig dros yr Amgylchedd, Michael Gove AS, y byddai ymadael â'r Undeb Ewropeaidd heb fargen yn peri "anhrefn".
- Bod pob rhagolwg economaidd credadwy'n dangos y bydd ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, boed hynny drwy fargen Theresa May neu ddim bargen o gwbl, yn niweidio economi'r Deyrnas Unedig;

Mae'r Cyngor yn cydnabod fod 13.5% o'r holl unedau busnes lleol yn Sir Ddinbych, yn ôl yr wybodaeth ar 10 Mawrth 2018, yn perthyn i'r diwydiant 'Amaeth, Coedwigaeth a Physgod'. Hwn oedd y dosbarth mwyaf ei faint o ran busnes a diwydiant.

Mae'r Cyngor yn pryderu ynghylch:

- effaith bosib ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Sir Ddinbych;
- effaith bosib ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar economi leol Sir Ddinbych.

Gan ystyried yr wybodaeth sydd newydd ddod i'r amlwg a manylion hysbys y fargen a gynigir, mae'r Cyngor yn galw ar Senedd y Deyrnas Unedig i roi'r dewisiadau sydd bellach ar gael, gan gynnwys y dewis i aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, gerbron y cyhoedd mewn Pleidlais i'r Bobl."

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR** (Tudalennau 103 - 106)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Peter Scott (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies (Is-Gadeirydd)

Mabon ap Gwynfor
Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Ellie Chard
Ann Davies

Christine Marston
Barry Mellor
Melvyn Mile
Bob Murray
Merfyn Parry
Paul Penlington

Gareth Davies
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Rachel Flynn
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Hugh Irving
Alan James
Brian Jones
Huw Jones
Pat Jones
Tina Jones
Gwyneth Kensler
Geraint Lloyd-Williams
Richard Mainon
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Anton Sampson
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Rhys Thomas
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Graham Timms
Joe Welch
Cheryl Williams
David Williams
Eryl Williams
Huw Williams
Emrys Wynne
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned